

Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (AEDdD/DPIA)

Manylion Cyffredinol

Teitl y Prosiect:	Dyfarnu Graddau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yng Nghymru yn Haf 2021
Manylion Cyswllt y SDD/DPO:	DPO@qualificationswales.org
Dyddiad Cwblhau'r AEDdD	16/4/2021

Cwestiynau Sgrinio

Cwestiwn Sgrinio Cychwynnol

A fydd y prosiect / system yn cynnwys prosesu data personol neu ddata personol categori arbennig?

BYDD - gweler ymhellach isod ddisgrifiad llawn o'r prosiect.

Cwestiynau Sgrinio Eilaidd

Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n ofynnol gan y GDPR

1. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys prosesu categorïau arbennig o ddata neu ddata troseddau ar raddfa fawr?

Bydd y prosiect yn cynnwys prosesu data personol categori arbennig gan ganolfannau yn bennaf ar ffurf data sy'n ymwneud ag ethnigrwydd ac anghenion addysgol arbennig ("AAA") dysgwyr gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaid â'u dyletswydd o ran cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yng nghanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ("EHRC"), sydd ar gael trwy Hwb [yma](#).

Fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd sydd i'w cynnal gan CBAC gallant hefyd gael data personol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig dysgwyr gan Lywodraeth Cymru.

Cyfyngir hyd y gwaith o brosesu unrhyw ddata o'r fath i'r broses o ddyfarnu graddau i ddysgwyr yng Nghymru yn ystod haf 2021 yn unig.

2. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys monitro systematig ar raddfa fawr o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd (ee teledu cylch cyfyng)?

NA FYDD

3. A fydd y prosiect / fenter yn defnyddio proffilio systematig a helaeth neu wneud penderfyniadau awtomataidd i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith/effeithiau cyfreithiol neu effeithiau yr un mor arwyddocaol ar bobl?

NA FYDD

AEDdD sy'n ofynnol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

1. A fydd y prosiect / fenter yn defnyddio technolegau newydd neu'n cymhwyso technolegau sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial) mewn ffordd newydd?

NA FYDD

2. A fydd y prosiect / fenter yn defnyddio proffilio, gwneud penderfyniadau awtomataidd neu ddata categori arbennig, i unrhyw raddau, i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch mynediad unigolyn at gynnyrch, gwasanaeth, cyfle neu fudd?

NA FYDD

3. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys proffilio unigolion ar raddfa fawr?

NA FYDD

4. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys prosesu data biometrig?

NA FYDD

5. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys prosesu data genetig (ac eithrio'r hyn a brosesir gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol unigol ar gyfer darparu gofal iechyd yn uniongyrchol i wrthrych y data)?

NA FYDD

6. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys cyfuno, cymharu neu gyfateb data o sawl ffynhonnell wahanol?

NA FYDD

7. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys casglu data personol o ffynhonnell heblaw'r unigolyn, heb roi rhybudd preifatrwydd iddynt oherwydd byddai hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur ('prosesu anweledig')?

NA FYDD

8. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys olrhain lleoliad a / neu ymddygiad ar-lein / oddi ar-lein yr unigolion?

NA FYDD

9. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys prosesu data personol plant neu unigolion agored i niwed eraill at ddibenion marchnata, proffilio neu ddibenion gwneud penderfyniadau awtomataidd eraill, neu i gynnig gwasanaethau ar-lein iddynt?

NA FYDD

10. A fydd y prosiect / fenter yn cynnwys prosesu data a allai beryglu iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn pe bai rheolau diogelwch yn cael eu torri?

NA FYDD

Canlyniad Sgrinio

Yng ngoleuni natur a chwmpas cyffredinol y prosiect hwn a maint y prosesu (a fydd yn cynnwys prosesu data personol dysgwyr ledled Cymru at ddibenion dyfarnu graddau mewn lefelau TGAU, UG ac Uwch), ystyrir ei bod yn briodol cynnal AEDdD llawn er mwyn sicrhau

bod cydymffurfiad â diogelu data wedi'i asesu'n iawn a bod unrhyw effeithiau perthnasol wedi'u hystyried a'u lliniaru cyn belled ag y bo modd.

Asesiad Llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA)

Cam 1: Disgrifiad Cyffredinol o'r Prosiect

Y Prosiect

Nod y prosiect hwn yw darparu ar gyfer dull teg a thryloyw o ddyfarnu graddau i garfan dysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch haf 2021 yng Nghymru er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i gamau nesaf eu bywydau.

Oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus yr adeg honno, ar 18 Mawrth 2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu bod yn canslo arholiadau haf yn 2020. Yn dilyn hynny, cyfarwyddodd Gweinidog Addysg Cymru i Cymwysterau Cymru (QW) roi sylw dyledus i'w polisi y dylai carfan 2020 o ddysgwyr ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch dderbyn graddau wedi'u cyfrifo. Ceisiodd QW sefydlu dull teg a chadarn o ddyfarnu graddau yn haf 2020. Yn absenoldeb y gyfres arholiadau, cynigiwyd y byddai graddau'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, gan gynnwys graddau asesu canolfannau a threfn rancio. Roedd QW hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ddefnyddio dulliau i 'safoni' neu addasu data asesu'r canolfannau i gynhyrchu 'graddau wedi'u cyfrifo'. Nod y broses safoni hon oedd sicrhau tegwch rhwng dysgwyr yn haf 2020 ac yn erbyn dysgwyr mewn blynyddoedd eraill.

Ym mis Awst 2020 daeth yn amlwg nad oedd y dysgwyr yn barod i dderbyn y graddau a oedd yn cael eu cyfrifo trwy'r broses safoni. Ar 12 Awst 2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru na fyddai graddau Safon Uwch yn is na'r radd lefel UG a ddyfarnwyd yn flaenorol i'r un dysgwr. Ar 17 Awst 2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gyhoeddiad pellach y byddai dysgwyr yn cael graddau a aseswyd yn y ganolfan mewn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch lle roedd y rhain yn uwch na'u gradd a gyfrifwyd.

Yn dilyn dyfarnu graddau yn haf 2020, dechreuodd QW wneud gwaith i benderfynu sut y gellid dyfarnu graddau yn haf 2021 yng nghyd-destun y pandemig COVID19 parhaus. Dechreuodd QW ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol a datblygu opsiynau posibl ar gyfer dyfarnu graddau.

O ganlyniad i ddigwyddiadau mewn perthynas â haf 2020, ym mis Tachwedd 2020 sefydlodd Gweinidog Addysg Cymru Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni ("DDAG") a oedd i ddarparu argymhellion i Weinidog Addysg Cymru ynghylch dyfarnu graddau yn haf 2021. Gwnaed yr argymhellion hynny ar 11 Rhagfyr 2020 ac ar 14 Rhagfyr 2020 cafodd QW gyfarwyddyd gan Weinidog Addysg Cymru i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru i fabwysiadu cynigion y Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni. Ar 15 Rhagfyr 2020, cyfarfu Bwrdd QW a phenderfynodd fabwysiadu'r dull o reoleiddio yn unol â'r dull polisi hwnnw.

Newidiodd yr amgylchiadau wedi hynny oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion o COVID19 yng Nghymru yn y flwyddyn newydd. Ar 4 Ionawr 2021 cyhoeddwyd y byddai ysgolion a cholegau yn parhau ar gau ac y byddai dysgwyr yn symud i ddysgu o bell. Roedd y newid hwn yn y sefyllfa yn golygu nad oedd argymhelliad blaenorol y Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni i Weinidog Addysg Cymru a'r dull a fabwysiadwyd gan QW bellach yn ymarferol ac roedd angen dull gwahanol. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg Gyfarwyddyd i QW yn nodi'r safbwynt polisi y dylid mabwysiadu dull lle roedd graddau yn cael eu pennu gan y canolfannau ac a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i QW ystyried y sefyllfa bolisi honno wrth benderfynu sut y byddai graddau'n cael eu dyfarnu yn haf 2021. Ystyriwyd nifer o opsiynau, yn ogystal â rhoi sylw i'r Cyfarwyddyd gan y Gweinidog Addysg, a phenderfynodd QW fwrw ymlaen â dull lle byddai canolfannau'n

pennu graddau.

Felly bydd y dull mabwysiedig ar gyfer dyfarnu graddau i ddysgwyr yn haf 2021 fel a ganlyn:

- Bydd canolfannau'n pennu graddau yn unol â chynlluniau a phrosesau asesu y bydd gofyn iddynt eu rhoi ar waith at y diben hwn.
- Er mwyn cynorthwyo canolfannau i wneud hynny, bydd CBAC yn sefydlu Fframweithiau Asesu Cymwysterau ac adnoddau cysylltiedig, a fydd yn cael eu datblygu gan gyfeirio at ganllawiau cyffredinol a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru.
- Bydd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau weithredu proses sicrhau ansawdd fewnol a bydd hefyd yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen o brosesau sicrhau ansawdd allanol i sicrhau eu bod yn fodlon â'r cynlluniau a'r prosesau asesu a roddir ar waith gan ganolfannau yng nghyd-destun y fframweithiau a sefydlwyd gan CBAC.

Gellir gweld canllawiau perthnasol QW a oedd yn gyfredol ar adeg cynhyrchu'r AEDdD hwn [yma](#).

Ar adeg ysgrifennu hyn, roedd y fframweithiau wrthi'n cael eu datblygu gan CBAC. Bydd y fframweithiau hyn, a chynlluniau asesu a gweithdrefnau canolfannau, yn nodi natur y dystiolaeth y bydd canolfannau'n ei hystyried wrth bennu graddau ar gyfer dysgwyr a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny.

Mae QW o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd yn ddull sylweddol deg ar gyfer pennu graddau i'w dyfarnu i ddysgwyr yn haf 2021. Bydd QW, wrth ddatblygu'r trefniadau amgen ar gyfer asesu ochr yn ochr â CBAC, gydag adborth gan y Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni, yn ceisio sicrhau bod dull sylweddol deg o ddyfarnu graddau yn cael ei gyflawni yn gyffredinol.

Y prosesu sy'n angenrheidiol

Bydd y prosiect yn cynnwys prosesu data dysgwyr gan ganolfannau yng Nghymru at ddibenion pennu gradd i'w dyfarnu i bob dysgwr yn haf 2021 ym mhob pwnc y maent ar hyn o bryd yn cymryd cymhwyster TGAU, UG neu Safon Uwch ynddo. Bydd yr union broses a weithredir yn dibynnu ar natur y cynllun asesu a ddatblygir gan bob canolfan, ond bydd yn cynnwys o leiaf ystyriaeth athrawon o dystiolaeth o gyflawniad dysgwr a phennu gradd i'r dysgwr hwnnw ar sail y dystiolaeth a gymerir i ystyriaeth gan y ganolfan. Gallai hyn gynnwys rhyw fath o asesiad safonedig yn dibynnu ar y cynllun asesu terfynol a fabwysiadir gan y ganolfan. Yna bydd canolfannau'n cynhyrchu Cofnod Gwneud Penderfyniadau mewn perthynas â phob dysgwr a fydd yn sail i ddyfarnu'r radd iddynt ym mhob un o'u pynciau.

Bydd CBAC yn eu rôl fel corff dyfarnu yn prosesu data personol wrth ymgymryd â sicrhau ansawdd allanol o'r prosesau a fabwysiadir ac a gymhwysir gan bob canolfan. Bydd CBAC hefyd yn prosesu data personol dysgwyr wrth ddyfarnu'r graddau a bennir ar gyfer pob dysgwr gan eu canolfan.

Ni fydd QW yn prosesu data personol unrhyw ddysgwyr at ddibenion dyfarnu graddau yn haf 2021 (ac eithrio lle mae apêl yn cael ei hanfon ymlaen i QW - gweler isod). Bydd prosesu o'r fath yn cael ei wneud gan y canolfannau. Rôl QW fydd datblygu canllawiau cyffredinol am y trefniadau amgen ar gyfer asesu, cefnogi gwaith CBAC i ddatblygu Fframweithiau Asesu Cymwysterau, canllawiau pellach ac adnoddau ategol,

a monitro'r gwaith o weithredu'r dull yn erbyn fframwaith rheoleiddio.

Bydd proses apelio ar gael mewn perthynas â dyfarnu graddau yn haf 2021, ar lefel canolfan, ar lefel y corff dyfarnu ac yna yn olaf i QW. Os gwneir cais am apel i QW yna bydd QW yn prosesu data personol dysgwyr fel rhan o'r broses apelio honno.

Bydd QW yn cael data personol dysgwyr gan Lywodraeth Cymru at ddibenion ystadegol, ond ystyrir bod hyn yn wahanol i ddyfarnu graddau ei hun a bydd QW yn cynhyrchu AEDdD annibynnol ar wahân mewn perthynas â'r prosesu hwnnw.

Yr angen am AEDdD

Fel y nodwyd uchod, yng ngoleuni natur y prosiect hwn, ystyrir ei bod yn briodol cynnal AEDdD llawn er mwyn sicrhau bod cydymffurfiad o ran diogelu data wedi'i asesu'n llawn gyda'r bwriad o gynorthwyo cydymffurfiad yr holl bartion perthnasol sy'n ymwneud â'r prosiect.

Cam 2: Disgrifiad Systematig o natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion Prosesu

2.1 Disgrifiwch natur y prosesu. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'r data personol?

2.1.1 Sut y byddwch chi'n casglu'r data?

Ni fydd QW yn casglu unrhyw ddata personol at ddibenion y prosiect hwn (sydd wedi'i gyfyngu i'r graddau dyfarnu gwirioneddol) ac eithrio pan gyflwynir apelïadau i QW ar ran dysgwr.

Bydd data'n cael ei brosesu'n bennaf gan ganolfannau mewn perthynas â dysgwyr sy'n mynychu'r ganolfan. Bydd prosesu o'r fath yn digwydd yn unol â'r cynlluniau a'r gweithdrefnau asesu y mae pob canolfan yn eu datblygu ar gyfer pennu graddau mewn perthynas â dysgwyr yn y ganolfan honno. Gallai hyn gynnwys ystyried tystiolaeth sy'n bodoli am berfformiad dysgwyr ynghyd â gwybodaeth ychwanegol a gynhyrchir at ddibenion pennu gradd briodol ar gyfer pob dysgwr.

Gallai CBAC fel y corff dyfarnu hefyd brosesu data personol fel rhan o'i brosesau sicrhau ansawdd a dyfarnu'r graddau i ddysgwyr fel y'u pennir gan ganolfannau.

Bydd proses apelio ar gael i ddysgwyr mewn perthynas â dyfarnu graddau iddynt yn haf 2021. Bydd gan y broses apelio hon dri cham, gan gynnwys adolygiad gan y ganolfan, apêl i CBAC, ac yn olaf cais adolygu i QW yn unol â'i Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad ("EPRS"). Pe bai dysgwr yn gofyn am adolygiad EPRS yna ar yr adeg hon bydd data personol yn cael ei gynnig gan y dysgwr, y ganolfan a'r corff dyfarnu i QW er mwyn galluogi'r broses honno.

Bydd QW yn prosesu data personol ychwanegol at ddibenion ymchwil ystadegol sy'n gysylltiedig â haf 2021 ond ymdrinnir â hyn mewn AEDdD ar wahân unwaith y bydd cwmpas y prosesu yn glir.

2.1.2 Sut y byddwch chi'n storio'r data?

Ni fydd QW yn storio unrhyw ddata personol at ddibenion y prosiect hwn, oni wneir cais i QW yn unol â'r EPRS. Mae gan QW systemau a mesurau diogelwch gwybodaeth priodol ar waith i rwystro unrhyw achos o dorri rheolau data personol (gweler 2.1.7 isod). Bydd unrhyw ddata o'r fath yn cael ei storio'n electronig mewn man diogel lle mae mynediad yn gyfyngedig i'r unigolion hynny sy'n delio â'r apêl.

Mater i ganolfannau a CBAC yw sicrhau eu bod yn storio unrhyw ddata personol y maent yn ei brosesu at ddibenion y prosiect hwn mewn modd diogel. Mae QW yn disgwyl bod gan y cyrff hynny fesurau diogelwch priodol ar waith mewn perthynas â'u gweithrediadau beunyddiol, ond mater i'r cyrff hynny yw sicrhau eu bod yn cynnal diogelwch data personol priodol at ddibenion y prosiect hwn.

2.1.3 Sut y byddwch chi'n defnyddio'r data?

Ni fydd QW yn defnyddio unrhyw ddata personol mewn perthynas â'r prosiect hwn, ac eithrio data a gyflwynir iddo at ddibenion cais i'r EPRS.

Bydd data personol yn cael ei brosesu'n bennaf gan ganolfannau a CBAC mewn perthynas â'r prosiect hwn, fel uchod.

2.1.4 Pwy fydd â mynediad at y data?

Bydd gan ganolfannau fynediad at ddata personol dysgwyr sydd i'w brosesu at ddibenion pennu graddau yn haf 2021. Bydd gan CBAC fynediad at ddata personol dysgwyr at ddibenion ei brosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas â chanolfannau ac ar gyfer dyfarnu graddau ar ôl i ganolfannau gyflwyno graddau a bennir gan ganolfannau i CBAC.

Pan wneir cais i'r EPRS yna dim ond yr unigolion hynny sy'n ymwneud â'r broses honno fydd â mynediad at y wybodaeth sy'n ymwneud â'r apêl.

Nid yw QW yn gallu rheoleiddio'r mesurau cydymffurfio â diogelu data y mae canolfannau'n eu cynnal a mater i ganolfannau fydd sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny yn y ganolfan sydd angen mynediad at ddata personol unrhyw ddysgwr penodol sydd â mynediad o'r fath mewn gwirionedd. Mae'r un peth yn wir hefyd mewn perthynas ag unrhyw ddata personol am ddysgwyr y gallai fod arnynt angen mynediad i CBAC er mwyn cyflawni eu rôl mewn perthynas â'r prosiect hwn fel y corff dyfarnu.

2.1.5 Gyda phwy fyddwch chi'n rhannu'r data? A fydd unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol o'r data y tu allan i'r AEE?

Ni fydd QW yn prosesu unrhyw ddata personol at ddibenion y prosiect hwn ac eithrio mewn perthynas â chais i'r EPRS.

Ni fydd QW yn rhannu unrhyw ddata personol ag unrhyw drydydd parti fel mater o drefn ac ni fydd QW yn trosglwyddo unrhyw ddata rhyngwladol. Mewn perthynas â cheisiadau i'r EPRS gallai QW rannu data personol dysgwyr gyda'r ganolfan berthnasol a CBAC er mwyn galluogi QW i gyflawni'r broses honno'n effeithiol. Gwneir hyn gyda gwybodaeth y dysgwr.

2.1.6 Fyddwch chi'n defnyddio unrhyw broseswyr data? Os felly, pwy?

Ni fydd QW yn defnyddio unrhyw broseswyr data mewn perthynas â'r prosiect hwn. Nid yw QW yn rhagweld y bydd unrhyw ganolfan na CBAC yn defnyddio prosesydd data mewn perthynas â'r prosiect hwn.

2.1.7 Pa fesurau diogelwch y byddwch chi'n eu defnyddio i gadw'r data'n ddiogel?

Ni fydd QW yn prosesu unrhyw ddata personol at ddibenion y prosiect hwn ac eithrio pan wneir cais i'r EPRS. Bydd data EPRS yn cael ei storio mewn ffolderi mynediad cyfyngedig yn ein systemau. Bydd mynediad yn gyfyngedig i aelodau panel EPRS, cefnogaeth weinyddol a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Mae gan QW sicrwydd trydydd parti o systemau diogelwch gwybodaeth trwy'r ardystiad Cyber Essential Plus.

Mae'r staff i gyd yn derbyn hyfforddiant diogelu data sy'n cael ei adnewyddu ar gyfnodau priodol yn ôl eu rolau. Mae'n ofynnol i staff lofnodi eu bod wedi darllen a deall ein polisi diogelu data mewnol a'n gweithdrefn torri rheolau data.

2.1.8 Disgrifiwch unrhyw **dechnolegau newydd** neu **fathau newydd** o brosesu a ddefnyddir.

Ni fydd QW yn defnyddio unrhyw fath newydd o dechnoleg mewn perthynas â'r prosiect hwn. I'r graddau y mae CBAC neu unrhyw ganolfan yn bwriadu gwneud hynny, yna mae'n rhaid i'r cyrff hynny gynnal eu hasesiadau eu hunain o effaith gwneud hynny ar ddiogelu data. Nid yw QW yn rhagweld y bydd angen i unrhyw gorff dan sylw ddefnyddio mathau newydd o dechnoleg at ddibenion y prosiect hwn.

2.1.9 Nodwch y **cyfnodau cadw** y byddwch chi'n eu defnyddio, a sut y bydd data'n cael ei ddileu.

Mater i ganolfannau fydd penderfynu pa mor hir y maent yn storio'r data personol a gynhyrchir at ddibenion y prosiect hwn yn unol â'u polisiau cadw eu hunain.

Rydym yn adolygu cadw dogfennau ar ôl 5 mlynedd ar gyfer achosion EPRS. Bydd data'n cael ei ddileu'n electronig o'n systemau os nad oes ei angen mwyach ar ôl yr amser hwn ar ôl cael cymeradwyaeth y Perchennog Asedau Gwybodaeth.

2.2 Disgrifiwch **gwmpas** y prosesu. Pa ddata personol y bydd y prosesu yn ei gynnwys?

2.2.1 Beth yw **natur** y data personol a ddefnyddir? A oes unrhyw ran ohono'n cynnwys data **categori arbennig** neu **ddata troseddau**?

Bydd y data personol a fydd yn cael ei brosesu at ddibenion y prosiect hwn naill ai'n dystiolaeth sy'n bodoli am berfformiad dysgwyr mewn perthynas â chymwysterau y maent yn eu cymryd ar hyn o bryd, neu'n wybodaeth newydd a gynhyrchir at ddibenion asesu eu perfformiad megis eu perfformiad mewn asesiad. O'r wybodaeth honno, bydd y ganolfan yn cynhyrchu Cofnod Gwneud Penderfyniadau a bydd Gradd a Benderfynir gan y Ganolfan yn cael ei chynhyrchu a'i chyflwyno i CBAC. Bydd hyn yn y pen draw yn arwain at ddyfarnu gradd i bob dysgwr gan CBAC.

Yn unol â chanllawiau categori arbennig EHRC, bydd data categori personol, yn bennaf ar ffurf data sy'n ymwneud ag ethnigrwydd ac AAA, yn cael ei brosesu gan ganolfannau at ddibenion sicrhau cydymffurfiad â'u dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus. Gallai CBAC hefyd gael data o'r fath gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei galluogi i ymgymryd â phrosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas â phennu graddau gan ganolfannau.

Pan ofynnir am gais EPRS, gellir cyflwyno unrhyw ran o'r data a ddefnyddiwyd i bennu gradd mewn perthynas â dysgwr i QW i'w hystyried wrth benderfynu ar y cais hwnnw. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y cais a'r wybodaeth a gyflwynir gan y dysgwr, y ganolfan neu CBAC i QW.

2.2.2 Faint o ddata fydd yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio? Faint o wrthrychau data fydd yn cymryd rhan?

Mae'r gwrthrychau data dan sylw i gyd yn ddysgwyr sy'n cymryd cymhwyster TGAU, UG neu Safon Uwch yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd union faint o ddata sy'n cael ei brosesu mewn perthynas â'r gwrthrychau data hyn yn dibynnu ar natur y cynlluniau a'r gweithdrefnau asesu a fabwysiadir gan bob canolfan yn ogystal â nifer y dysgwyr a'r nifer sy'n cofrestru am y cymhwyster yn y ganolfan. Bydd cynllun asesu'r ganolfan yn cael ei seilio ar y Fframweithiau Asesu Cymwysterau a'r adnoddau cysylltiedig a sefydlwyd gan CBAC mewn cytundeb â QW, ac ystyriaethau pob canolfan ynghylch yr hyn y mae'r ganolfan yn ei ystyried (yn amodol ar sicrhau ansawdd gan CBAC yng nghyd-destun eu fframweithiau asesu mabwysiedig) fyddai'n sylweddol deg iddynt ei ystyried wrth bennu graddau yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol a wynebir gan y ganolfan honno a'r dysgwyr dan sylw.

2.2.3 Beth yw maint ac amllder y prosesu?

Bwriedir i'r prosiect ymdrin â'r amgylchiadau digynsail cyfredol a wynebir o ganlyniad i'r pandemig COVID19 parhaus. Rhagwelir mai hwn felly fydd yr unig amser y bydd y prosesu hwn yn digwydd.

2.2.4 Beth yw hyd y prosesu?

Bydd prosesu'r data yn y ffordd a gynigir yn ymwneud â phenderfynu ar raddau ar gyfer carfan dysgwyr haf 2021 yn unig.

2.2.5 Pa ardal ddaearyddol y mae'r prosesu yn ei chwmpasu?

Mae prosesu unrhyw ddata personol yn ymwneud â dysgwyr yng Nghymru yn unig.

2.3 Disgrifiwch **gyd-destun** y prosesu. Gan gynnwys ffactorau mewnol ac allanol a allai effeithio ar ddisgwyliadau neu effaith.

2.3.1 Beth yw natur eich **perthynas** â'r unigolion? I ba raddau maen nhw'n debygol o **ddisgwyl** y prosesu?

Nid oes gan QW unrhyw berthynas uniongyrchol â'r dysgwyr. QW yw'r corff rheoleiddio yn y mater hwn. Nid oes gan CBAC fel y corff dyfarnu berthynas uniongyrchol â dysgwyr ychwaith. Ond mae gan ganolfannau berthynas uniongyrchol â'u dysgwyr, a'r canolfannau fydd yn gyfrifol am brosesu data personol dysgwyr yn sylweddol wrth bennu graddau yn haf 2021.

Ystyrir bod dysgwyr yn disgwyl y prosesu am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r dull yn debyg i'r un a gyrhaeddwyd yn y pen draw mewn perthynas â dyfarnu graddau yn haf 2020, ac a ystyriwyd yn dderbyniol yn gyhoeddus bryd hynny.
- Mae'n rhesymol i ddysgwyr ddisgwyl y byddai fframwaith yn cael ei sefydlu eleni er mwyn darparu rhywfaint o strwythur i ddyfarnu graddau, lle nad oedd hyn yn wir yn haf 2020 oherwydd yr amgylchiadau a gododd.
- Mae QW wedi anfon gohebiaeth at ddysgwyr ynghylch y ffordd y bydd graddau'n cael eu pennu. Er enghraifft, yn fuan ar ôl cyhoeddi pob fersiwn o'r ddogfen ganllaw gyffredinol, mae llythyr ar gyfer dysgwyr wedi'i gynhyrchu a'i ddsbarthu trwy ganolfannau a dulliau eraill fel y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r llythyrau ar gael [yma](#).
- Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi cyhoeddi gohebiaeth ynghylch graddau'n cael eu dyfarnu yn y ffordd a gynigiwyd ac rydym hefyd wedi cyhoeddi'r Cyfarwyddyd a roddwyd i QW yn nodi safbwynt polisi'r Gweinidog Addysg ynghylch dyfarnu graddau yn haf 2021 (<https://www.qualificationswales.org/media/7223/20210219-cover-letter-including-direction-welsh.pdf>)
- Datblygwyd y dull gydag adborth gan y Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion a phenaethiaid Addysg Bellach. Mae'r grŵp hwn o benaethiaid ac arweinwyr colegau wedi ystyried dyluniad prosesau yn ofalus gyda QW a CBAC i sicrhau eu bod mor deg â phosibl i ddysgwyr ac wedi cydbwysu hyn â'r gofynion y mae'r sefyllfa hynod hon yn eu gosod ar ganolfannau. Ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid yn ystod y broses i gynhyrchu a diweddarau pob fersiwn o'n canllawiau cyffredinol ac mae adborth yn awgrymu, yn gyffredinol, y bydd dull lle mae canolfannau'n darparu graddau yn dderbyniol i'r cyhoedd.

Mae risg y gallai dysgwyr ddadlau nad oeddent yn disgwyl y byddai rhai mathau penodol o dystiolaeth o'u perfformiad yn cael eu hystyried wrth bennu eu gradd. Mae hwn, fodd bynnag, yn fater i ymdrin ag ef o fewn fframweithiau asesu a chynlluniau pob canolfan ar sail eu hamgylchiadau penodol.

Mae QW wedi annog canolfannau i gyfathrebu eu dull arfaethedig gyda dysgwyr a'u rhieni / gofalwyr er mwyn sicrhau tryloywder a hyder yn y dull a fabwysiadwyd. Mae hyn yn rhan o'r canllawiau a gyhoeddwyd gan QW i ganolfannau mewn perthynas â phennu graddau yn haf 2021.

O ran prosesu data categori arbennig sy'n ymwneud ag ethnigrwydd ac AAA, bydd prosesu o'r fath yn digwydd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr EHRC. Mae QW o'r farn y byddai dysgwyr yn disgwyl yn rhesymol y byddai data o'r fath yn cael ei brosesu fel rhan o bennu graddau er mwyn ei gwneud yn bosibl i fylchau cyrhaeddiad gael eu monitro.

Pan fydd dysgwr yn cyflwyno cais am EPRS i QW rhaid iddo ddisgwyl yn rhesymol y byddai gwybodaeth sy'n berthnasol i ddyfarnu ei radd unigol fod ar gael i QW fel rhan o'r broses honno.

sydd gennych?

Bydd y data a fydd yn cael ei brosesu at ddibenion y prosiect hwn naill ai'n wybodaeth a gedwir eisoes gan ganolfan ac a gynhyrchwyd gan ddysgwyr yn ystod y cwrs ar gyfer ei gymhwyster, neu yn wybodaeth asesu a gynhyrchwyd gan y dysgwyr (er enghraifft fel rhan o'r cyn-bapurau wedi'u haddasu sy'n cael eu darparu gan CBAC neu dasg asesu a ddyfeisiwyd gan ganolfan) i'w cyflawni fel rhan o gynllun asesu'r ganolfan.

2.3.3 Pwy yw'r gwrthrychau data? Ydyn nhw'n cynnwys **plant** neu bobl **fregus eraill**?

Gwrthrychau'r data yw'r dysgwyr yng ngharfan haf 2021 ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

2.3.4 A oes unrhyw **bryderon blaenorol** ynghylch y math hwn o **brosesu neu ddiffygion diogelwch**? Ydy hyn yn newydd mewn unrhyw ffordd?

Nac ydy.

2.3.5 Beth yw cyflwr technoleg yn y maes hwn **ar hyn o bryd**? A oes unrhyw **ddatblygiadau perthnasol** mewn technoleg neu ddiogelwch? Neu unrhyw faterion cyfredol sy'n peri **pryder i'r cyhoedd** y dylech chi eu hystyried?

Ni fydd QW yn defnyddio unrhyw dechnoleg newydd mewn perthynas â'r prosiect hwn, nac yn defnyddio unrhyw dechnoleg sy'n bodoli eisoes mewn ffordd newydd.

Nid yw QW yn rhagweld y bydd yn ofynnol i CBAC na chanolfannau ddefnyddio unrhyw dechnoleg newydd neu dechnoleg sy'n bodoli eisoes mewn ffordd newydd mewn perthynas â'r prosiect hwn. Pe bai CBAC neu unrhyw ganolfannau yn ceisio gwneud hynny, mater i'r corff hwnnw yw asesu yng nghyd-destun ei rwymedigaethau diogelu data ei hun ac nid yw'n fater i QW.

2.3.6 Ydych chi wedi ymrwmo i unrhyw **godau ymddygiad** neu **gynlluniau ardystio GDPR** cymeradwy? Os yw'n berthnasol, nodwch sut rydych chi wedi ystyried a chydymffurfio â chodau perthnasol.

Amherthnasol

2.4 Disgrifiwch **bwrrpas** y prosesu. Am ba reswm/rhesymau ydych chi am brosesu'r data personol?

2.4.1 Beth ydych chi am ei **gyflawni** ? Beth yw'r **effaith a fwriadwyd** ar unigolion?

Yn yr amgylchiadau digynsail presennol mae QW fel rheoleiddiwr, ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru, yn ceisio sicrhau bod dysgwyr yng ngharfan haf 2021 yn derbyn

graddau TGAU, UG a Safon Uwch mewn modd teg a thryloyw er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i'r cyfnodau nesaf yn eu bywydau.

2.4.2 Beth yw **buddion disgwylidig** y prosesu i chi, ac yn ehangach i'r gymdeithas gyfan?

Mae budd amlwg i'r dysgwyr hyn a'r gymdeithas gyfan mewn perthynas â'r prosiect hwn, yng ngoleuni'r ymateb uchod i 2.4.1. Heb brosesu data personol dysgwyr, ni fydd yn bosibl dyfarnu graddau iddynt yn y pynciau a'r cymwysterau y maent yn eu cyflawni ar hyn o bryd, a fydd yn rhwystro neu'n atal eu dilyniant i gamau nesaf eu bywydau yn sylweddol.

2.4.3 Lle rydych chi'n dibynnu ar eich **buddiannau cyfreithlon** fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, nodwch nhw yma.

Amherthnasol

Cam 3: Ymgynghori â Gwrthrychau Data ac eraill

1.1 Os ymgynghorwyd â'r gwrthrychau data neu eu cynrychiolwyr ynghylch y prosesu arfaethedig, nodwch y canfyddiadau isod:

Mae'r dull o ymdrin â'r trefniadau asesu amgen ar gyfer haf 2021 wedi'i ddatblygu gyda CBAC a chydag adborth gan y Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni (DDAG). Sefydlwyd y grŵp gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd, yng nghyd-destun y cyfeiriad polisi gan y Gweinidog a phenderfyniad gan Fwrdd QW i reoleiddio dyfarnu graddau yn unol â'r cyfeiriad hwnnw. Mae'r grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni yn cynnwys penaethiaid ysgolion a cholegau o bob rhan o Gymru ac ehangwyd y grŵp ar ddechrau'r flwyddyn i sicrhau cynrychiolaeth lawn a phriodol.

Sefydlwyd nifer o is-grwpiau Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni i ystyried gwahanol agweddau ar broses haf 2021, gan gynnwys grwpiau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a llais y dysgwr. Roedd yr is-grŵp cydraddoldebau yn cynnwys ffocws ar drefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat.

Yn hydref 2020, sefydlodd QW grŵp Rhanddeiliaid Haf 2021 i ystyried yr ymagwedd gyffredinol at asesu yn haf 2021. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys rhanddeiliaid fel Comisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym wedi parhau i gwrdd â'r rhanddeiliaid hyn trwy'r broses ddatblygu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac i dderbyn adborth. Mae meysydd â ffocws penodol wedi'u cysylltu â manylion y dull o asesu a'r effaith ar les dysgwyr, trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat a phrosesau apelio. Mae'r rhanddeiliaid hynny hefyd wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar bob fersiwn o'r canllawiau cyffredinol rydyn ni wedi'u cyhoeddi, ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad. Enghraifft o newid o'r fath oedd cynnwys adran gyfan a oedd yn canolbwyntio ar ganllawiau a lles dysgwyr. Mae'r adran hon yn cynnwys cyfeiriad at faterion sy'n cael sylw trwy'r canllawiau i gyd ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried lles dysgwyr a gofal bugeiliol yn y cyfnod ar ôl i ddysgwyr dderbyn eu canlyniadau dros dro yn ogystal â chynnwys dolenni i ganllawiau ychwanegol sy'n debygol o fod o ddefnydd i ganolfannau. Rydym hefyd wedi gweithredu ar adborth penodol gan y Comisiynydd Plant mewn perthynas â'n

cyfathrebu â dysgwyr ynghylch y trefniadau ar gyfer haf 2021; mae hyn wedi cynnwys adborth am fformat, amseriad a chynnwys ein gohebiaeth.

Mae Cymwysterau Cymru ar wahân wedi ymgysylltu â nifer o grwpiau sy'n cynrychioli dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig, ac mae hyn wedi bod yn sail i'n Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r Senedd leuenctid ac rydym yn ymateb i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth gan ddysgwyr a'u rhieni.

Rydym yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth a datblygu hyder yn nhrefniadau asesu haf 2021 mewn partneriaeth ag Youth Cymru, Parentkind, CBI ac Universities UK a Phrifysgolion Cymru.

Rydym yn lansio sianel adborth 'dweud eich dweud' ar gyfer dysgwyr ac yn cyd-noddi ymchwil (gyda Llywodraeth Cymru a CBAC) dan arweiniad 5 SAU yng Nghymru gyda dysgwyr i'w profiadau eleni.

Rydym wedi sefydlu [Grŵp Cyngori Dysgwyr](#), a fydd yn cwrdd am y tro cyntaf yng nghanol mis Ebrill. Daw'r 18 dysgwr sy'n ffurfio'r grŵp o bob rhan o Gymru, o gymysgedd o gefndiroedd gydag oedrannau'n amrywio o flwyddyn 9 i flwyddyn 13. Byddwn yn cynnal pedwar cyfarfod y flwyddyn gyda'r grŵp hwn ac yn trafod ystod o faterion am gymwysterau, gan gynnwys trefniadau asesu Haf 2021.

1.2 Os na ofynnwyd am farn y gwrthrychau data, eglurwch pam isod:

Gweler 1.1 uchod.

1.3 Nodwch unrhyw ganfyddiadau eraill o ymgynghoriadau ag eraill isod.

Gweler 1.1 uchod.

Cam 4: Aseiad Rheidrwydd, Cymesuredd a Chydymffurfio â Diogelu Data

4.1 Beth yw'r dibenion a'r seiliau cyfreithlon dros brosesu'r data personol a nodwyd uchod?

	Pwrpas : pa amcan ydym ni'n ceisio ei gyflawni?	Sail gyfreithlon :
1	Sicrhau bod dysgwyr yn cael graddau mewn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 mewn modd teg a thryloyw i'w galluogi i symud ymlaen i gamau nesaf eu bywydau.	<p>Mewn perthynas â data personol sydd i'w brosesu, mae QW o'r farn mai'r sail gyfreithlon berthnasol yw honno yn Erthygl 6 (1) (e) GDPR - tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd.</p> <p>Mewn perthynas â data personol categori arbennig sydd i'w brosesu fel rhan o ddyfarnu graddau yn haf 2021 mae QW o'r farn mai'r sail gyfreithlon berthnasol yw hynny yn Erthygl 9 (2) (g) GDPR - prosesu sy'n angenrheidiol am resymau sydd o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol. Er mwyn dibynnu ar yr amod hwn mae angen bodloni amod yn Rhan 2 o Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 ("DPA"). Mae QW o'r farn bod Paragraff 6 o Ran 1 yr atodlen honno yn berthnasol.</p>

4.2 Rheidrwydd: a yw'r prosesu mewn gwirionedd yn cyflawni'r pwrpas(au) a ddymunir?

Mae QW wedi cynnal ymarferiad manwl o asesu'r amrywiol opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau yn haf 2021 yng nghyd-destun y pandemig COVID19 parhaus. Mae hyn wedi cynnwys ystyriaethau (ymhlith eraill) ynghylch a ellid cynnal arholiadau yng ngwanwyn a haf 2021, ac a ellid gofyn am ryw fath o aseiad safonedig fel arall gan bob canolfan. Wrth i faterion fynd rhagddynt ac i amgylchiadau newid, gan gynnwys colli mwy o amser dysgu wyneb yn wyneb, mae'r opsiynau sydd ar gael wedi lleihau.

Nid yw'n opsiwn ymarferol i beidio â dyfarnu graddau i ddysgwyr o gwbl yn haf 2021. Byddai hyn yn cael effaith rhy niweidiol ar ddysgwyr yn y garfan bresennol yn ogystal â goblygiadau cymdeithasol ehangach. Felly bu'n rhaid penderfynu ar fodd i bennu graddau mewn modd teg yng nghyd-destun yr amgylchiadau a wynebir ar hyn o bryd.

Mae QW wedi gofyn barn amrywiol randdeiliaid trwy gydol y mater hwn, gan gynnwys gan y Grwp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni a fforymau perthnasol eraill, ac mae'n fodlon y bydd y dull arfaethedig yn cyflawni'r pwrpas a fwriadwyd o ddyfarnu graddau yn haf 2021 mewn ffordd sylweddol deg gan ystyried holl amgylchiadau'r mater hwn. Ni fydd yn bosibl dyfarnu graddau heb brosesu data personol dysgwyr ac yn benodol ystyried tystiolaeth o gyrhaeddiad dysgwyr yn y pynciau a'r cymwysterau y maent yn eu hastudio. Mae QW yn fodlon bod angen prosesu data personol.

4.3 Cymesuredd: a oes unrhyw ffordd resymol arall i gyflawni'r un canlyniad?

Yng ngoleuni'r sylwadau yn 4.2 uchod, nid yw QW o dan yr amgylchiadau yn ystyried bod unrhyw ffordd resymol arall y gellid cyflawni'r un canlyniad heb brosesu data personol.

4.4 Sut y byddwch yn atal **lledaeniad swyddogaeth** hy ehangu'r defnydd o dechnoleg neu system yn raddol y tu hwnt i'r pwrpas y bwriadwyd hi ar ei gyfer yn wreiddiol?

Nid yw QW yn ystyried bod unrhyw risg o “ledaeniad swyddogaeth” mewn perthynas â'r prosiect hwn. Mae'r prosiect hwn yn digwydd o dan amgylchiadau digynsail gyda'r bwriad o sicrhau bod dysgwyr yn cael graddau mewn modd teg a thryloyw i'w galluogi i symud ymlaen i gamau nesaf eu bywydau.

4.5 Sut y byddwch yn sicrhau **ansawdd** data ac yn cadw'r data i **isafswm**?

Mae QW yn cynnal ymarferiad manwl gyda CBAC er mwyn sicrhau bod y fframweithiau asesu a roddir ar waith yn briodol. Mae'r fframweithiau hyn yn cael eu datblygu gyda'r bwriad o lywio cynlluniau asesu canolfannau fel bod gwybodaeth briodol yn cael ei hystyried wrth bennu graddau ar gyfer dysgwyr. Wrth wneud hyn bwriad y fframweithiau a'r cynlluniau asesu yw sicrhau bod graddau teg yn cael eu dyfarnu ar sail gwybodaeth ddigonol a phriodol sy'n berthnasol i bob dysgwr unigol, gan ystyried yr amgylchiadau sy'n wynebu'r dysgwr hwnnw a'r ganolfan berthnasol.

4.6 Pa **wybodaeth** y byddwch chi'n ei darparu i unigolion a sut ydych chi'n bwriadu gwneud hynny?

Yng ngoleuni natur y prosiect hwn mae QW wedi darparu gwybodaeth i ganolfannau a dysgwyr yn barhaus wrth i'r mater fynd yn ei flaen. Mae QW yn ymwybodol, er na fydd yn prosesu data personol mewn perthynas â'r prosiect hwn, y bydd ei benderfyniadau fel y corff rheoleiddio berthnasol o reidrwydd yn dylanwadu ar natur y gwaith o brosesu unrhyw ddata personol am ddysgwyr sydd i ddigwydd. Mae QW hefyd yn ymwybodol o arwyddocâd y mater hwn i ddysgwyr a phryderon dysgwyr mewn perthynas â'r ffordd y bydd eu graddau'n cael eu pennu yn haf 2021. O'r herwydd, mae QW wedi darparu cymaint o wybodaeth ag y mae wedi gallu ei wneud er mwyn hysbysu dysgwyr a chanolfannau mewn modd cyson ynghylch y ffordd y cynigir y bydd graddau yn cael eu pennu. Mae Gweinidogion Cymru wedi chwarae rhan fanwl yn y mater hwn ac maent hefyd wedi cyhoeddi cyfathrebiadau a chyhoeddiadau wrth i'r mater fynd yn ei flaen.

Mae enghreifftiau o wybodaeth a gyhoeddwyd hyd yma yn cynnwys:

Mae ein gwefan yn cynnwys adran bwrpasol ar [haf 2021](#), lle mae tudalen yn darparu cyfathrebiadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i roi [Gwybodaeth i ddysgwyr](#). Mae'r dogfennau a gyhoeddir yno yn cynnwys diweddariadau ar benderfyniadau a chanllawiau. Mae'r llythyrau hyn yn cael eu dosbarthu trwy ysgolion a hefyd y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth trwy Hwb ([Graddau a bennir gan ganolfannau ar gyfer ysgolion a cholegau: enghreifftiau o ddulliau gweithredu - Hwb \(gov.wales\)](#)) gan gynnwys cynlluniau asesu canolfannau enghreifftiol a seminarau dan arweiniad y Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni ar y dull y cytunwyd arno. Maent hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd wrth i'r dull fynd rhagddo (gweler er enghraifft [Canllawiau arholi ac asesu: 2020 i 2021 | LLYW.CYRMU](#)) ac wedi cyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae CBAC hefyd wedi cyfathrebu'n rheolaidd â dysgwyr a chanolfannau yn ystod y broses (gweler [Asesiadau 2021:Sicrhewch y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch \(cbac.co.uk\)](https://www.cbac.co.uk))

Bydd QW yn parhau i gyhoeddi cyfathrebiadau fel y bo'n briodol er mwyn diweddarau dysgwyr a chanolfannau wrth i'r mater hwn fynd yn ei flaen.

Anogir canolfannau i gyfathrebu â dysgwyr yn uniongyrchol mewn perthynas â'u cynlluniau a'u gweithdrefnau asesu er mwyn sicrhau bod dysgwyr ym mhob canolfan yn cael eu hysbysu ynghylch sut y dylid pennu eu graddau unigol gyda'r nod o hyrwyddo tryloywder a hyder yn y dulliau a fabwysiadwyd.

4.7 Sut y byddwch chi'n helpu i gefnogi unigolion i arfer eu hawliau?

Wrth gydnabod yr hawl i bob person ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau, bydd y broses apelio tri cham a sefydlwyd gan QW yn caniatáu i ddysgwyr ofyn i ganolfannau adolygu eu graddau dros dro os ydynt o'r farn bod camgymeriad wedi'i wneud.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn deall sut mae canolfannau wedi pennu eu graddau, p'un a yw hyn gyda'r bwriad o ofyn am anolygiad gan y ganolfan neu apêl neu fel arall. Mae ein dogfen ganllaw (gweler paragraff 4.2 yn fersiwn 3.0) yn ei gwneud yn glir y dylai canolfannau gyfleu eu dull asesu i ddysgwyr a'u rhieni / gofalwyr. Mae'r canllawiau hefyd yn esbonio'r broses apelio (adran 8, fersiwn 3.0).

O ran data personol a brosesir gan QW fel rhan o gais EPRS, bydd QW yn dilyn ei weithdrefnau sefydledig ar gyfer cydymffurfio â hawliau gwrthrychau data ac mae ganddo bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith eisoes i'w alluogi i wneud hynny.

Hawl i Wybodaeth

Mae ysgolion a cholegau yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am breifatrwydd i ddysgwyr ac mae QW yn annog tryloywder ar ran canolfannau yn ei ddogfennau canllaw. Mae QW yn arddangos rhybudd preifatrwydd i ddysgwyr ar ei wefan mewn perthynas â phrosesu a wneir gan Cymwysterau Cymru ac fel arall mae wedi cyfathrebu â dysgwyr fel y nodir yn yr AEDdD hwn ynghylch y dull o ddyfarnu graddau yn 2021.

Hawl mynediad gan wrthrych y data

Mae gan ddysgwyr yr hawl i gael mynediad i'w data. Mae yna eithriad ar gyfer data arholiadau ond rhaid cydbwysu defnyddio'r eithriad hwn â'r hawl i ddysgwyr fod â'r wybodaeth angenrheidiol ar gael iddynt er mwyn deall sut y pennwyd eu gradd er mwyn, er enghraifft, i broses apelio deg gael ei chynnal. Mae'n ofynnol i ganolfannau ddilyn canllawiau QW a CBAC er mwyn sicrhau bod y prosesau asesu ac apeliadau yn cael eu cynnal fel y bwriadwyd. Nid yw'r eithriad ar gyfer sgriptiau arholiad yn atal canolfannau rhag datgelu gwybodaeth i ddysgwyr fel sy'n ofynnol o dan y gweithdrefnau hynny. Ond byddai'r eithriad ar gyfer sgriptiau arholiad yn berthnasol pe bai dysgwr yn ceisio defnyddio ei hawliau diogelu data i gael mynediad at wybodaeth ychwanegol y tu allan i weithdrefnau QW / CBAC.

Yr hawl i gywiro unrhyw wallau

Pan fydd dysgwr o'r farn bod data anghywir wedi'i brosesu wrth bennu ei radd, yna mae'r rhesymau sydd ganddynt am ofyn am adolygiad gan y ganolfan ac yna apêl i CBAC yn ei gwneud yn bosibl i gamgymeriadau honedig o'r fath gael eu hystyried a'u cywiro lle bo hynny'n briodol.

Yr hawl i ddileu, yr hawl i gyfyngu ar brosesu a'r hawl i wrthwynebu prosesu

Rhagwelir gan QW y bydd canolfannau a CBAC yn cadw'r holl wybodaeth o'r fath sy'n berthnasol i'w penderfyniad ynghylch gradd dysgwr am gyfnod priodol er mwyn gallu disbyddu pob llwybr her, neu hyd nes y penderfynir y dylid newid gradd o'r fath. Mae QW o'r farn bod diddordeb cymhellol mewn cadw gwybodaeth o'r fath er mwyn galluogi dysgwyr i herio eu graddau pe byddent yn dewis gwneud hynny ac i ganolfannau a CBAC amddiffyn unrhyw heriau posibl i'r broses ddyfarnu.

Dylid cadw pob gradd derfynol yn yr un modd ag mewn unrhyw flwyddyn academaidd arall.

4.8 Pa fesurau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod proseswyr yn cydymffurfio â GDPR?

Nid yw QW yn rhagweld y bydd unrhyw broseswyr yn cael eu penodi mewn perthynas â'r prosiect hwn. I'r graddau y gallai CBAC neu unrhyw ganolfan geisio penodi prosesydd, yna mater i'r cyrff hynny yw sicrhau bod ganddynt fesurau priodol ar waith i sicrhau bod y proseswyr hynny'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

4.9 Sut y byddwch chi'n diogelu unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol o ddata y tu allan i'r AEE?

Ni fydd QW yn trosglwyddo unrhyw ddata personol y tu allan i Gymru. Ni ragwelir y byddai'n ofynnol i CBAC nac unrhyw ganolfan drosglwyddo unrhyw ddata y tu allan i'r DU. I'r graddau y gallai'r cyrff hynny wneud hynny, mater i'r cyrff hynny yw sicrhau bod ganddynt fesurau diogelwch priodol ar waith i wneud hynny. Nid yw hwn yn fater y mae QW mewn sefyllfa i ddylanwadu arno mewn perthynas â'r prosiect hwn.

Cam 5: Nodi ac Asesu Risgiau i Hawliau a Rhyddid Gwrthrychau'r Data

Rhif y risg	Ar gyfer pob risg a nodwyd, disgrifiwch y ffynhonnell a natur yr effaith bosibl ar unigolion isod. Ystyriwch eich risgiau corfforaethol eich hun yma hefyd.	Tebygolrwydd o niwed -Tebygol -Posibl -Annhebygol	Difrifoldeb y niwed -Difrifol -Sylweddol -Bach iawn	Risg gyffredinol -Uchel -Canolig -Isel
1.	Darperir graddau anghywir gan ganolfannau i CBAC o ganlyniad i wall gweithdrefnol	Posibl	Sylweddol	Canolig
2.	Torri rheolau data personol wrth i'r ganolfan drosglwyddo gwybodaeth i CBAC	Posibl	Sylweddol	Canolig
3.	Gofid yn cael ei achosi i ddysgwyr oherwydd iddynt gael graddau is na'r hyn yr oeddent wedi'u rhagweld neu fel arall yr oeddent yn ystyried eu bod yn eu cyflawni	Posibl	Sylweddol	Canolig
4.	Graddau anghywir yn cael eu cyhoeddi gan CBAC o ganlyniad i wall gweithdrefnol neu yn y system ar eu rhan nhw	Posibl	Sylweddol	Canolig
5.	Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dadlau nad oeddent yn disgwyl y byddai eu data personol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd a gynigiwyd	Posibl	Sylweddol	Canolig
6.	Efallai na fydd rhai dysgwyr yn deall y broses a allai beri gofid iddynt	Posibl	Sylweddol	Canolig
7.	Gallai dysgwyr ystyried bod rhagfarn neu wahaniaethu yn y broses a gyflwynir gan athrawon yn y ganolfan wrth bennu graddau	Posibl	Difrifol	Uchel
8.	Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag un dysgwr, gan gynnwys ei Gofnod Gwneud Penderfyniadau, ar gael yn anfwriadol i ddysgwr arall	Posibl	Difrifol	Uchel

Difrifoldeb y niwed			
Niwed difrifol	Risg isel	Risg uchel	Risg uchel
Niwed sylweddol	Risg isel	Risg ganolig	Risg uchel
Ychydig iawn o niwed	Risg isel	Risg isel	Risg isel
	Annhebygol	Posibilrwydd rhesymol	Yn fwy tebygol na pheidio
Tebygolrwydd o niwed			

Cam 6: Nodi mesurau i liniaru risgiau

Rhif y risg	Nodi opsiynau ar gyfer mesurau y gallech eu cymryd i leihau neu ddileu risgiau canolig neu uchel	Effaith ar risg -Wedi'i dderbyn -Wedi'i leihau -Wedi'i ddileu	Risg gweddilliol -Uchel -Canolig -Isel	Cymeradwywyd y mesur Do / Naddo
1	Bydd mecanweithiau apelio priodol yn cael eu rhoi ar waith i ymdrin â'r risg y bydd dysgwr yn cael gradd anghywir oherwydd camgymeriad yn y ganolfan	Derbyniwyd	Isel	Do
2	Mae canolfannau wedi sefydlu mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu'n ddiogel â CBAC a dylid defnyddio'r rhain	Derbyniwyd	Isel	Do
3	Anogir canolfannau i fod yn dryloyw gyda dysgwyr a'u gofalwyr / rhieni ynghylch y dulliau y maent yn eu mabwysiadu at ddyfarnu graddau. Mae proses apelio tri cham hefyd yn cael ei darparu a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ofyn am adolygiad gan y ganolfan, apelio i CBAC ac yn olaf lefel QW os nad ydyn nhw'n fodlon â'r radd a bennir iddynt.	Derbyniwyd	Isel	Do
4	<p>Bydd mecanweithiau apelio priodol yn cael eu rhoi ar waith i ymdrin â'r risg y bydd dysgwr yn cael gradd anghywir oherwydd camgymeriad ar ran CBAC.</p> <p>Mae CBAC yn gorff dyfarnu sefydledig sy'n gyfarwydd iawn â thrin symiau sylweddol o ddata dysgwyr wrth ddyfarnu cymwysterau ac felly disgwylir iddo fod â gweithdrefnau a systemau priodol ar waith i liniaru'r risgiau y bydd camgymeriadau yn codi.</p>	Derbyniwyd	Isel	Do
5	<p>Mae QW wedi nodi yn yr AEDdD hwn y camau y mae wedi'u cymryd i gyfathrebu â dysgwyr a rhanddeiliaid eraill ynghylch y dull o ddyfarnu graddau yn haf 2021. Yn ychwanegol mae canolfannau yn cael eu hannog i gyfathrebu â dysgwyr a gofalwyr / rhieni gyda'r bwriad o sicrhau tryloywder a hyder yn y dull cyffredinol a'r dull unigol a fabwysiadir gan bob canolfan.</p> <p>Mae QW yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i lywio ac egluro'r broses a gymerwyd yn haf 2021.</p>	Derbyniwyd	Isel	Do
6	Fel uchod. Er efallai nad yw rhai dysgwyr yn deall y broses yn llawn, mae QW wedi bod mor	Derbyniwyd	Isel	Do

	dryloyw â phosibl o ran y broses ac mae'n annog canolfannau i wneud hynny hefyd. Os yw dysgwr yn dymuno deall y broses yn well yna gallant fynd at eu canolfan i gael esboniad pellach. Gall y ganolfan godi problemau gyda CBAC a QW os na allant ateb ymholiadau gan ddysgwr ynghylch y broses ehangach.			
7	Mae QW yn ymwybodol o'r potensial i ragfarn ymwybodol ac anymwybodol gael ei chyflwyno i'r broses. Bydd y broses cymeradwyo fewnol sy'n ofynnol gan bob canolfan yn ymdrin â hyn, a bydd apeliadau ar gael i ddysgwyr yn enwedig ar sail rhesymoldeb y radd a bennir gan y ganolfan. Mae'r hyfforddiant a'r canllawiau sydd ar gael i ganolfannau gan CBAC hefyd yn cynnwys deunydd ar lunio barnau gwrthrychol.	Wedi lleihau	Isel	Do
8	Mae gan ganolfannau reolaeth dros ddsbarthu gwybodaeth i ddysgwyr am sut y cafodd graddau eu pennu. Mae canolfannau yn gyfarwydd iawn â darparu gwybodaeth, gan gynnwys adroddiadau ysgol ac ati i ddysgwyr a dylent sicrhau eu bod yn mabwysiadu gweithdrefnau priodol i liniaru'r risg o ddatgelu gwybodaeth yn anfwriadol i'r dysgwr anghywir.	Derbyniwyd	Isel	Do

Cam 7: Cymeradwyo ac adolygu

Eitem	Enw(au)	Dyddiad	Nodiadau
Cymeradwywyd y mesurau gan:			
Cymeradwywyd y risgiau gweddilliol gan:			
Nodwch unrhyw bwyntiau gweithredu a phwy fydd yn gyfrifol am eu gweithredu (gan gynnwys unrhyw ofynion i ymgynghori â'r SCG/ICO):			
[Darparwyd cyngor yr SDD/DPO:]			
[Crynodeb o gyngor yr SDD/DPO:] Mae risgiau wedi'u hystyried a'u lliniaru. Mae'r risg weddilliol yn isel.			

Cyngor yr SDD/DPO wedi'i dderbyn neu ei ddiystyru gan: <input type="checkbox"/> Derbyniwyd <input type="checkbox"/> Wedi'i ddiystyru			
Os cafodd ei ddiystyru, esboniwch eich rhesymau dros wneud hynny yma:			
Adolygwyd ymatebion yr ymgynghoriad gan:			
Os yw'ch penderfyniad yn gwyro oddi wrth farn unigolion a roddwyd yn eich ymgynghoriad, rhaid i chi egluro'ch rhesymau pam eich bod wedi diystyru eu barn yma:			

Adolygu'r AEDdD	
Bydd yr AEDdD hwn yn cael ei adolygu eto ar y dyddiad hwn:	
Bydd yr AEDdD hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan:	
<p style="text-align: center;"><i>Os oes newid sylweddol i natur, cwmpas, cyd-destun neu ddibenion y prosesu - rhaid i chi gwblhau AEDdD newydd.</i></p>	